



MOESEG

PWYLLGOR MOESEG A'R BROSES
CYMERADWYO MOESEGOL



YMDDWYN YN FOESEGOL

'Ethical practice in research involves thoughtful reflection about how one ought to proceed in any given situation ... it is more than simply the avoidance of being unethical or conforming to regulations'

McGinn, 2014, p.159

A OES ANGEN CYMERADWYAETH FOESOL ARNAF?

Mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill, efallai y byddwn yn gofyn a oes angen cymeradwyaeth foesegol arnom pan fydd ein hymchwil yn gysylltiedig â datblygu ein harferion addysgu (ein haddysgeg).

Wrth gwblhau unrhyw ymchwil, mae'n ofynnol i chi ystyried y goblygiadau moesegol; pan fyddwch yn gofyn i gyfranogwyr wneud neu ddarparu **unrhyw beth sy'n ychwanegol at weithgarwch arferol yn yr ystafell ddosbarth**, yna, fel arfer, mae angen i chi wneud cais am gymeradwyaeth foesegol.

PWYLLGOR MOESEG

Mae panel cymeradwyo moesegol neu 'bwyllgor moeseg' yn grŵp o bobl sydd a dealltwriaeth dda o foeseg ymchwil, sy'n cyfarfod i drafod goblygiadau moesegol cynigion ymchwil.

Bydd y pwyllgor moeseg yn ystyried gweithredoedd arfaethedig yr ymchwilydd wrth gyflawni'r goblygiadau moesegol.

Bydd y panel yn cymeradwyo (approve), cymeradwyo'n amodol (approve subject to conditions) neu'n gwrthod (reject) ceisiadau.

Y FFURFLEN FOESEG

Beth allwch chi ei gynnig yn gwbl sicr?

* Peidiwch byth ag addo yr hyn na allwch ei gynnig.

Rhaid i oedolion fod yn gwbl wybodus.

Ni ddylid camarwain plant a dylid eu hysbysu mor llawn ag sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u lefel cyrhaeddiad.

Y FFURFLEN FOESEG

Rhaid i bob myfyriwr gyflwyno ffurflen foeseg yn ffurfiol i'r Pwyllgor Moeseg cyn gwneud ymchwil.

Er mwyn i chi ddangos eich gwybodaeth am ystyriaethau moesegol, bydd angen i chi lenwi ffurflen foeseg a'i chynnwys yn eich aseiniad fel atodiad.



CWBLHAU'R
FFURFLEN
FOESEG

ADRAN A: Amdanoch Chi (Prif Ymchwilydd)

1	Enw Llawn:					
2	Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol:		Aelod o'r staff:	☐	Cymrawd ymchwil anrhydeddus:	☐
3	Myfyriwr Israddedig	☐	Myfyriwr Ôl-raddedig a Addysgir	☒	Myfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig	☐
4	Athrofa/Disgyblaeth Academaidd/Canolfan:		Yr Athrofa			
5	Campws:		Abertawe			
6	Cyfeiriad e-bost:		Angen rhoi'ch epost Prifysgol yma, nid un personol			
7	Rhif Ffôn Cyswllt:					
I fyfyrwyr:						
8	Rhif y Myfyriwr:					
9	Rhaglen Astudio:					
10	Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr:					

ADRAN A

ADRAN B

Ydy

ADRAN B: Cymeradwyaeth ar gyfer Gweithgarwch Ymchwil


1	A yw'r gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor? (gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ynglŷn â'r broses gymeradwyo briodol ar gyfer lefelau ymchwil gwahanol gan gategoriâu gwahanol o unigolion)	YDY	☐	NAC YDY	☐
					Dyddiad
2	Os Ydy, nodwch ffynhonnell y gymeradwyaeth (a'r dyddiad os yw'n	Pwyllgor Graddau Ymchwil	☐		
3	wybyddus) Mae'n rhaid cael	Pwyllgor Ymchwil yr Athrofa	☐		
4	cymeradwya ffynhonnell cais am gym	Arall (noder)	☐		

Tiwtor y modwl yn y bocs 'Arall'
(h.y. Rachel neu Sioned)

Dyddiad

ADDAN 1

ADRAN C: Deunyddiau Cyfarwyddyd Moesegol Mewnol ac Allanol

	Rhestrwch y dogfennau cyfarwyddyd moesegol craidd y cyfeiriwyd atynt wrth gwblhau'r ffurflen hon (gan gynnwys unrhyw godau moeseg ymchwil penodol i'r ddisgyblaeth, codau moeseg ymchwil penodol i'r lleoliad, a hefyd unrhyw ganllawiau moesegol penodol yn ymwneud â'r fethodoleg arfaethedig). Ticiwch i gadarnhau fod eich cynnig ymchwil yn cydymffurfio â'r codau a'r canllawiau hyn. Gallwch ychwanegu rhesi i'r tabl hwn os oes angen.		
1	Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil PCYDDS		☐
2	Polisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS		☐
3	<i>[Rhestrwch unrhyw ddogfennau perthnasol eraill yma]</i>		☐

Ychwanegwch Canllawiau Moeseg BERA yma

ADRAN D

Gadewch yn wag





ADRAN E. MANYLION Y
GWEITHGARWCH YMCHWIL

ADRAN E: Manylion y Gweithgarwch Ymchwil

1	Teitl dangosol:	
2	Dyddiad cychwyn arfaethedig:	Dyddiad gorffen arfaethedig:
3	Cyflwyniad i'r Ymchwil (uchafswm o 300 o eiriau) Gwnewch yn siŵr eich bod yn ysgrifennu ar gyfer <u>Cynulleidfa Anarbenigol</u> wrth amlinellu eich ymateb i'r tri phwynt isod: <i>Pwrrpas y Gweithgarwch Ymchwil</i> <i>Cwestiwn Ymchwil Arfaethedig</i> <i>Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil</i> <i>Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil</i> Dangoswch, yn gryno, sut mae <u>Ymchwil Cyfredol</u> wedi arwain y gweithgarwch arfaethedig ac esboniwch <i>Beth fydd y gweithgarwch ymchwil yn ei ychwanegu at y corff gwybodaeth</i> <i>Sut mae'n mynd i'r afael â maes o bwys.</i>	

Rhowch deitl eich ymchwiliad yma, sef y cwestiwn ymchwil

300 o eiriau i gyd, nid 300 o eiriau fesul adran.

Dyddiad cychwyn casglu'r data.

Fel arfer, y ddyddiad cyflwyno sy'n mynd yma.

Cymrwch sylw o'r frawddeg hon - cynulleidfa anarbenigol, h.y. bydd angen i chi allu esbonio'ch gwaith i rywun sy'n gweithio mewn maes arall

ADRAN E

Angen rhoi rhywbeth ym mhob boc.

Sut mae'n mynd i'r afael â maes o bwys.	
4	Pwrpas y Gweithgarwch Ymchwil (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
5	Cwestiwn Ymchwil Yr un cwestiwn a'r un rydych wedi rhoi ym mocs Adran E:1. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
6	Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
7	Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
8	Dulliau arfaethedig (uchafswm o 600 o eiriau) Rhowch grynoded byr o'r holl ddulliau y gellid eu defnyddio yn y gweithgarwch ymchwil, gan ei gwneud yn glir pa dechnegau penodol fydd o bosibl yn cael eu defnyddio. Os ystyrir yn ddiweddarach bod dulliau heblaw am y rhai a restrwyd yn yr adran hon yn briodol, bydd angen cymeradwyaeth foesebol ychwanegol ar gyfer y dulliau hynny.
9	

ADRAN E



Dulliau arfaethedig (uchafswm o 600 o eiriau)

Rhowch grynodeb byr o'r holl ddulliau y **gellid** eu defnyddio yn y gweithgarwch ymchwil, gan ei gwneud yn glir pa dechnegau penodol fydd o bosibl yn cael eu defnyddio. Os ystyrir yn ddiweddarach bod dulliau heblaw am y rhai a restrwyd yn yr adran hon yn briodol, bydd angen cymeradwyaeth foesegol ychwanegol ar gyfer y dulliau hynny. Nid oes angen i chi gyfiawnhau'r dulliau yma, ond yn hytrach dylech ddisgrifio sut rydych chi'n bwriadu casglu'r data sydd eu hangen i gwblhau eich prosiect.

Dylai hyn gynnwys pa fath o ddata rydych chi'n bwriadu ei gasglu a sut rydych chi'n bwriadu ei gasglu a'i ddadansoddi.

Mae unrhyw recordiadau sain/fideo o gyfweiliadau â chyfranogwyr yn cael eu trin fel Data Personol o dan GDPR. Os ydych yn bwriadu defnyddio'r rhain, nodwch hyn yma, yn Adran F ac yn Adran J.

ADRAN F

Disgrifiad o'r ysgol
(ond ni ddylid enwi)

	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
10	Lleoliad y gweithgarwch ymchwil Nodwch yr holl leoliadau lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil.		
11	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
12	Gweithgarwch ymchwil y tu allan i'r DU Os cynhelir gweithgarwch ymchwil dramor, chi sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir ag ystyriaethau moesegol lleol ac y ceisir y caniatâd perthnasol. Nodwch unrhyw ganllawiau lleol sy'n bodoli (e.e. gan gymdeithasau proffesiynol lleol/cymdeithasau dysgedig/prifysgolion) a nodwch a yw'r rhain yn cynnwys amodau moesegol y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol yn y DU (rhowch fanylion unrhyw drwyddedau neu ganiatâd sydd eu hangen). Yn ogystal nodwch a oes unrhyw faterion moesegol penodol yn codi yn sgil y cyd-destun lleol lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil, er enghraifft, materion diwylliannol a/neu gyfreithiol sensitif neu achosion lle mae'r cyfranogwyr yn agored i niwed.		
13	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
14	Defnyddio dogfennau nad ydynt wedi'u cyhoeddi: A oes unrhyw rai o'r dogfennau NAD ydynt ar gael yn gyhoeddus?	NAC OES	☐
		OES	☐
15	Os Oes, rhowch fanylion yma o'r modd y byddwch yn cael mynediad at ddogfennaeth benodol nad yw wedi'i chyhoeddi a bod hyn yn unol â chyfraith diogelu data gyfredol y wlad dan sylw a Chymru a Lloegr.		
	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

ADRAN F

Dylai unrhywbeth sydd a 'Bydd' gael ei drafod yn y rhan am ddulliau ymchwil.

ADRAN F: Cwmpas y Gweithgarwch Ymchwil

1	Fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys:	BYDD	NA FYDD
2	Defnyddio holiadur neu offeryn ymchwil tebyg?	☐	☐
3	Defnyddio cyfweiliadau?	☐	☐
4	Defnyddio dyddiaduron?	☐	☐
5	Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau'n ymwybodol o hynny?	☐	☐
6	Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau ddim yn ymwybodol o hynny?	☐	☐
7	Defnyddio recordio fideo neu sain?	☐	☐
8	Mynediad i wybodaeth bersonol neu gyfrinachol heb gydsyniad penodol y cyfranogwyr?	☐	☐
9	Defnyddio unrhyw gwestiynau, ysgogiadau prawf neu gyflwyniad a allai, ym mhrofiad rhai, achosi niwed / tramgwydd corfforol, meddyliol neu emosiynol?	☐	☐
10	Cyflawni unrhyw weithredoedd a allai achosi embaras neu effeithio ar hunan-barch?	☐	☐
11	Ymchwilio i gyfranogwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon?	☐	☐
12	Defnyddio gweithdrefnau sy'n cynnwys twyll?	☐	☐
13	Rhoi unrhyw sylwedd, cyfrwng neu blasebo?	☐	☐

Byddwch yn ofalus i ateb 'Bydd' i'r un cywir.

RHAID i'r wybodaeth yma gyd-fynd â'r wybodaeth a roddoch yn Adran E.

ADRAN G

ADRAN G: Cyfranogwyr Arfaethedig

1	Pwy yw'r cyfranogwyr arfaethedig:	IE	NA
2	Myfyrwyr neu staff yn y Brifysgol?	☐	☐
3	Oedolion (dros 18 oed ac sy'n gymwys i gydsynio)?	☐	☐
4	Oedolion agored i niwed?	☐	☐
5	Plant a Phobl Ifanc dan 18 oed? (Bydd angen cydsyniad Rhiant, Gofalwr neu Warcheidwad)	☐	☐
6	Carcharorion?	☐	☐
7	Troseddwyr ifanc?	☐	☐
8	Y rhai y gellid ystyried bod ganddynt berthynas arbennig o ddibynnol â'r ymchwilydd neu gyfryngwr (<u>gatekeeper</u>)?	☐	☐
9	Pobl sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon?	☐	☐
10	Eraill (nodwch yn benodol unrhyw grŵp nad ydynt <u>efallai'n</u> gallu rhoi cydsyniad). Nodwch nhw yma a thicio'r blwch priodol	☐	☐
11	Arall – nodwch yma: (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

ADRAN G



12	Niferoedd a ffynhonnell y cyfranogwyr Rhowch amcangyfrif o'r nifer disgwylledig o gyfranogwyr. Sut byddwch chi'n canfod cyfranogwyr a sut cânt eu recriwtio?	
13	Faint o gyfranogwyr a ddisgwylir?	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>
14	Pwy fydd y cyfranogwyr?	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>
15	Sut byddwch chi'n canfod y cyfranogwyr?	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>



Ar gyfer arsylwad, rhowch 'tua 30' neu rhywbeth tebyg.

Bydd uchafswm o 14 o gyfranogwyr i gyd i ffurfio dau grŵp ffocws: grŵp myfyrwyr rhwng 6 ac 8 o gyfranogwyr a grŵp staff rhwng 4 a 6 o gyfranogwyr.

Y cyfranogwyr presennol yn xxx (y cyd-destun) a'r staff sy'n ymwneud ag asesu'r rhaglen.

Byddaf yn anfon gwahoddiad e-bost i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws ymchwil i tua 30 o fyfyrwyr sydd wedi'u hasesu fel rhan o'r rhaglen xxx. Bydd maen prawf recriwtio ar gyfer yr ystod fwyaf posibl ar gyfer yr amrywiaeth ehangaf yn cael ei ddefnyddio i recriwtio hyd at 8 aelod o'r panel. Bydd rhwng 6-8 o gyfranogwyr yn ffurfio'r grŵp ffocws ac, i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan, anfonir e-bost gyda sesiwn friffio sy'n egluro'n glir agweddau a dibenion moesegol yr ymchwil. Unwaith y bydd grŵp y myfyrwyr wedi'i sefydlu, cysylltir â'r cyfranogwyr drwy e-bost gyda sesiwn friffio yn manylu ar eu cyfranogiad yn yr ymchwil, gan ofyn am gydsyniad gwybodus a darparu disgwyliadau gwybodaeth o ymddygiad proffesiynol ar gyfer trafodaeth ffocws.

I ffurfio'r grŵp staff, anfonir e-bost at staff allweddol mewn rolau penodol i'w gwahodd i grŵp ffocws. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys rhwng 4 a 6 o gyfranogwyr mewn rolau penodol.

	sut cant eu recriwtio?
10	Faint o gyfranogwyr a ddisgwylir?
11	Pwy fydd y cyfranogwyr?
12	Sut byddwch chi'n canfod y cyfranogwyr?



16	Gwybodaeth i gyfranogwyr:	BYDDAF	NA FYDDAF	AMH.
17	A fyddwch chi'n disgrifio'r prif weithdrefnau ymchwil i gyfranogwyr ymlaen llaw, fel eu bod yn cael gwybod beth i'w ddisgwyl?	☐	☐	☐
18	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr fod eu cyfranogiad yn wirfoddol?	☐	☐	☐
19	A fyddwch chi'n cael cydsyniad ysgrifenedig gan y rhai sy'n cymryd rhan?			
20	A fyddwch chi'n egluro wrth y cyfranogwyr na fydd gwrthod cymryd rhan yn yr ymchwil yn effeithio ar eu triniaeth neu'u haddysg (os yn berthnasol)?	☐	☐	☐
21	Os yw'r ymchwil yn <u>arsylwadol</u> , a fyddwch chi'n gofyn i'r cyfranogwyr am eu cydsyniad i gael eu harsylwi?	☐	☐	☐
22	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr eu bod yn gallu tynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm?	☐	☐	☐
23	Gyda holiaduron, a fyddwch chi'n rhoi'r dewis i gyfranogwyr i hepgor cwestiynau nad ydynt am eu hateb?	☐	☐	☐
24	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr yr ymdrinnir â'u data yn gwbl gyfrinachol ac, os cânt eu cyhoeddi, na ellir eu hadnabod fel eu data hwy?	☐	☐	☐
25	A fyddwch yn cynnal ôl-drafodaeth gyda'r cyfranogwyr wedi idd gymryd rhan, mewn modd sy'n briodol i'r math o ymchwil a gynhaliwyd?			
26	Os atebwyd NA FYDDAF i unrhyw rai o'r cwestiynau uchod, rh			
27	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>			

Os rydych yn gweithio gyda phlant ifanc, byddwch yn ofalus gyda hwn.

28	Gwybodaeth i gyfranogwyr:	BYDD	NA FYDD	AMH.
29	A fydd pob cyfranogwr yn cael ei dalu?	☐	☐	☐
30	A fydd offer trydanol arbenigol neu offer arall yn cael ei ddefnyddio gyda'r cyfranogwyr?	☐	☐	☐
31	A fydd unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill i'r ymchwilydd neu'r Brifysgol yn deillio o'r astudiaeth hon?	☐	☐	☐
32	A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys camarwain cyfranogwyr yn fwriadol mewn unrhyw fodd, neu guddio nodau penodol yr astudiaeth yn rhannol neu'n llawn?	☐	☐	☐
33	Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn			
34	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>			

ADRAN H: RISGIAU DISGWYLIEDIG

			oes	
2	Risgiau i'r cyfranogwyr Er enghraifft: iechyd a diogelwch penodol i'r sector, gofid emosiynol, datgeliad ariannol, niwed corfforol, trosglwyddo data personol, gwybodaeth sefydliadol sensitif			
	Risg i'r cyfranogwyr:		Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r cyfranogwyr:	
	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>		<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	

		oes
2	Risgiau i'r cyfranogwyr Er enghraifft: iechyd a diogelwch penodol i'r sector, gofid emosiynol, datgeliad ariannol, niwed corfforol, trosglwyddo data personol, gwybodaeth sefydliadol sensitif	
	Risg i'r cyfranogwyr: <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r cyfranogwyr: <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>

Ysgrifennwch y risgiau yma.

Rhifwch pob un.

Rhifwch bob ymateb.

Dechreuwch gyda 'Byddaf yn...'

		oes
2	Risgiau i'r cyfranogwyr Er enghraifft: iechyd a diogelwch penodol i'r sector, gofid emosiynol, datgeliad ariannol, niwed corfforol, trosglwyddo data personol, gwybodaeth sefydliadol sensitif	
	Risg i'r cyfranogwyr:	Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r cyfranogwyr:
	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

*Niwed corfforol neu seicolegol

*Gofid emosiynol

*Gall potensial ar gyfer teimladau anesmwythyd ac anghytuno ymhlith cyfranogwyr yn ystod y drafodaeth grŵp gael ei ystyried yn niweidiol i broffesiynoldeb ac enw da unigolion yn yr ymchwil.

*Aflonyddwch i'r berthynas â staff

*Risg y gall cyfranogwyr deimlo eu bod wedi'u gorfodi i roi ymatebion cadarnhaol neu ragfarnllyd i gwestiynau oherwydd perthnasau.

NIWED CORFFOROL NEU SEICOLEGOL

Ymlyniad wrth ddiogelu plant a diogelu rheoliadau.

Sicrhau fod y broses cydsyniad a chaniatad gwybodus yn gadarn a thrylwyr e.e. eglurder ynghylch dibenion, manteision a risgiau cymryd rhan yn yr ymchwil, gan sicrhau bod pobl ifanc yn deall eu safbwynt eu hunain yn llawn o ran yr ymchwil, a'u hawl i dynnu'n ôl ohono ar unrhyw adeg.

Sefydlu cyfathrebu cadarnhaol gyda rhieni ac unrhyw borthmyn o ddarpariaeth y mae'r bobl ifanc yn ei fynychu. Cydweithio gyda nhw i hyrwyddo dealltwriaeth o'r dibenion ymchwil, a hawliau'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan ynddo, a'r rhai a ddewisodd beidio â gwneud hynny.

Sicrhau bod cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar sail un-i-un mewn gofod diogel a phreifat, lle gall pobl ifanc fynegi eu hunain yn rhydd heb ofni ail-droseddu gan staff neu gyfoedion.

Sicrhau gweithdrefnau cadarn ar gyfer cynnal cyfrinachedd a pheidio enwi unrhywun sy'n cymryd rhan i'r ymchwil.

Osgoi ddatgelu unrhyw wybodaeth ynghylch unrhyw un o'r cyfranogwyr, gan sicrhau bod eu cyfranogiad yn parhau'n gyfrinachol.

Sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer storio data yn unol â gweithdrefnau'r brifysgol a chanllawiau moesegol.

GOFID EMOSIYNOL

Sicrhau mynediad at gefnogaeth briodol pe bai hyn yn dod yn amlwg, ac ailystyried/adolygu'r dull gweithredu.

Gweithio gyda chyfrwngwr i egluro argaeledd gwasanaethau cymorth i'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil. Cydweithio ar y cyd gyda chyfryngwr i archwilio unrhyw faterion a all godi yn y cyfweiliadau a allai fod yn achos gofid i unrhyw un o'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil.

Bod yn glir gyda'r bobl ifanc ynglŷn â chynnal y cyfweiliadau, y pynciau o dan sylw, a'u hawliau i atal y cyfweiliad neu dynnu'n ôl ohono ar unrhyw adeg. Ymgynghori â staff, rhieni/gwarcheidwaid, er mwyn cael dealltwriaeth o amgylchiadau personol y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil er mwyn sicrhau bod y cyfweiliadau'n cael eu cynnal mewn ffordd sensitif, ac nid yw pwnc y cyfweiliad yn achosi gofid.

Sicrhau, mor llawn â phosibl, bod y bobl ifanc yn deall natur yr ymchwil, ei ddibenion, a goblygiadau posibl er mwyn osgoi camddealltwriaeth a rheoli disgwyliadau. Sicrhau cyfathrebu dilynol rheolaidd gyda chyfranogwyr er mwyn ail-gadarnhau caniatâd, a'u diweddarau ar gynnydd yr ymchwil.

cyfrwngwr = gatekeeper

POTENSIAL AR GYFER ANESMWYTHYD AC ANGHYTUNO

Er mwyn osgoi anghysur ac anghytuno yn ystod y drafodaeth grŵp ffocws, byddaf yn datblygu canllaw trafod a fydd yn diffinio paramedrau a chwmpas y cwestiynau sy'n cael eu trafod. Bydd y cyfranogwyr yn cael taflen wybodaeth i gyfranogwyr a fwriedir i'w hatgoffa o'r canlynol: Cyd-destun a chefnidir i'r ymchwil; Pwrpas y drafodaeth; Cwestiynau ymchwil; Caniatâd Gwybodus; Cwestiynau/datganiadau penodol i'w mynd i'r afael â nhw (dim mwy na phedwar); Defnyddio'r data a gasglwyd yn y drafodaeth; Briffio ar y defnydd o'r wybodaeth a'r data a gasglwyd yn y drafodaeth.

Byddaf yn cymedroli'r drafodaeth, gan ddarparu atgofion drwyddi draw at ddiben y drafodaeth er mwyn sicrhau bod decorum proffesiynol yn cael ei gynnal yn unol â chodau ymddygiad y Drindod Dewi Sant. Yn ystod y drafodaeth ynghylch xxx, os bydd aelodau'r grŵp yn dechrau bod yn gritigol mewn ffordd sy'n amlygu'r cyfranogwyr i unrhyw faint o risg i enw da unigolion neu YDDS, byddaf yn atgoffa aelodau'r grŵp o'u rhwymedigaethau o ran ymddygiad proffesiynol ar ddiwedd y drafodaeth.

AFLONYDDWCH AR BERTHYNAS (GYDA STAFF)

Sicrhau eglurder gyda'r holl bobl ifanc a staff/gyfryngwyr ynghylch nodau a ffocws yr ymchwil.

Tarfu cyn lleied â phosib ar weithgareddau o ddydd i ddydd o fewn y ddarpariaeth oherwydd y prosiect ymchwil.

Sicrhau cyfrinachedd ac anhysbysrwydd y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil bob amser.

Sicrhau storio data yn briodol ac yn ddiogel. Tawelu meddyliau'r cyfranogwyr na fydd y wybodaeth y maent yn ei darparu yn cael ei datgelu heb eu caniatâd.

Sicrhau bod cyfweiliadau'n cael eu cynnal mewn amgylchedd cyfrinachol addas.

Gweithio gyda gyfryngwr i hyrwyddo dealltwriaeth o natur yr ymchwil, a chael sicrwydd bod cyfranogiad y bobl ifanc ynddo yn cael ei gefnogi'n llawn, ac nid yn arwain at driniaeth andwyol gan staff neu gyfoedion.

RISG Y GALL CYFRANOGWYR DEIMLO EU BOD WEDI'U GORFODI I ROI YMATEBION CADARNHAOL NEU RAGFARNLLYD

Cyn y cyfweiliad grŵp, bydd y cyfranogwyr yn cael taflen wybodaeth i gyfranogwyr lle y gofynnir am ganiatâd gwybodus. Er mwyn osgoi'r risg y bydd cyfranogwyr yn teimlo gorfodaeth i gymryd rhan, bydd trawsgrifiad synopseiddiedig o'r drafodaeth ar gael i'r cyfranogwyr yn dilyn y drafodaeth.

synopseiddiedig = synthesised

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

4

Risgiau i'r ymchwilydd

Er enghraifft: iechyd a diogelwch personol, niwed corfforol, gofid emosiynol, risg o gyhuddiad o niwed/ anwedduster, gwrthdaro buddiannau

Risg i'r ymchwilydd:

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r ymchwilydd:

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

HONIADAU WRTH GYNNAL CYFWELIADAU

Sicrhau mynediad i ofod addas sy'n sicrhau cyfrinachedd cyfraniadau'r cyfranogwyr, tra hefyd yn weladwy i gydweithwyr/ddisgyblion eraill.

CYHUDDIADAU O FFUGIO DATA

Egluro i'r cyfranogwyr ynghylch mynediad at drawsgrifiadau o gyfweiliadau neu nodiadau maes.

Sicrhau ôl-drafodaeth gyda'r cyfranogwyr i gynnwys adrodd ar ac egluro lle bo angen y cyfraniadau y maent wedi'u gwneud.

Gweithio gyda chyfrwngwr i hyrwyddo deall yn gynhwysfawr beth yw natur y project ymchwil.

ôl-drafodaeth = debriefing

PRYDERON AM ORFODAETH

Gwneud yn glir bod cyfranogwyr yn rhydd i ddatgysylltu ac, yn y digwyddiad hwnnw, ni fydd hyn yn effeithio ar asesu na chanlyniadau eu rhaglen astudio.

EFALLAI Y BYDD CYFRANOGWYR AM DYNNU'N ÔL

Yn achos tynnu'n ôl o'r astudiaeth, byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r cyfranogwyr sy'n weddill a bydd cyfranogwyr newydd yn cael eu recriwtio os oes angen, a fydd yn cael eu briffio'n llawn, a cheisir am eu caniatâd gwybodus.

GWRTHDARO BUDDIANNAU POSIBL RHWNG YR YMCHWILYDD A'R CYFRANOGWYR (CONFLICT OF INTEREST)

Mewn sefyllfa ble gallai fod gwrthdaro buddiannau rhwng yr ymchwilydd a'r cyfranogwyr, er enghraifft gallai'r ymchwilydd fod yn rhan o ryw agwedd ar asesu gwaith cyfranogwyr, ni fyddai'r ymchwilydd yn asesu gwaith y cyfranogwr hwnnw.

TORRI CYFRINACHEDD OHERWYDD BOD DATA'N CAEL EI RYDDHAU'N DDAMWEINIOL

Caiff yr ymchwil ei storio ar 'gwmwl' YDDS a chaiff unrhyw recordiadau, data neu drawsgrifiad eu diogelu gan gyfrinair mewn ffolderi electronig ar systemau YDDS o fewn protocolau'r brifysgol. Fodd bynnag, bydd datganiadau GDPR yn cael eu cynnwys mewn unrhyw wybodaeth a chydsyniad a bydd yr ymchwilydd yn sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw mewn lleoliadau cwmwl diogel.

RISGIAU'N YMWNEUD Â'R POSIBILRWYDD O EMOSIYNAU NEGYDDOL ANNISGWYL Y RHAI GAFODD EU CYFWELD...

Bod yn ofalus am y gofod lle y cynhelir y cyfweliad a dewis llefydd tawel a chyhoeddus. Mae'r cyfranogwyr yn cael sicrwydd bod holl ddata personol y cyfranogwyr yn cael eu storio'n ddiogel mewn man diogel, megis...

Dylid astudio'r holl ddeddfau a rheoliadau cysylltiedig yn ofalus cyn y gweithgareddau ymchwil er mwyn osgoi camymddwyn anfwriadol sy'n ennyn amheuaeth gan awdurdodau.

	<i>(dylai'r blwch hwn tynh yn twy wrth i chi deipio)</i>	<i>(dylai'r blwch hwn tynh yn twy wrth i chi deipio)</i>
5	Risgiau i'r Brifysgol/sefydliad Er enghraifft: cyhoeddusrwydd gwael, colled ariannol, diogelu data	
	Risg i'r Brifysgol:	<i>Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r brifysgol:</i>
	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>

	(dylai'r blwch hwn tynh yn fwy wrth i chi deipio)	(dylai'r blwch hwn tynh yn fwy wrth i chi deipio)
5	Risgiau i'r Brifysgol/sefydliad Er enghraifft: cyhoeddusrwydd gwael, colled ariannol, diogelu data	
	Risg i'r Brifysgol:	Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r brifysgol:
	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Niwed i enw da / Cwyn bosibl yn erbyn yr ymchwilydd am achosi gofid emosiynol neu embaras a allai achosi niwed i enw da

NIWED I ENW DA

Sicrhau ymlyniad wrth god moeseg a safonau ymchwil y Drindod Dewi Sant a safonau arfer da y cytunwyd arnynt yn gyffredinol.

Sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau storio data a chanllawiau'r brifysgol a gweithdrefnau diogelwch.

Sicrhau bod methodoleg ymchwil yn gadarn a bod y dulliau yn briodol.

Cadw at god ymddygiad YDDS (a hefyd cod ymddygiad CGA ar gyfer athrawon)

Sefydlu eglurder ynghylch gweithdrefnau ar adrodd datgeliadau mewn lleoliadau gwaith maes.

Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo dealltwriaeth gynhwysfawr ynglŷn â natur yr ymchwil er mwyn osgoi camddealltwriaeth a rheoli disgwyliadau.

6 Risgiau amgylcheddol Er enghraifft: gollwng llygryddion yn ddamweiniol, niwed i ecosystemau lleol	
Risg i'r amgylchedd:	<i>Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r amgylchedd:</i>
<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>

Defnyddio papur


Teithio i gyfarfodydd - ôl
troed carbon

6	Risgiau amgylcheddol Er enghraifft: gollwng llygryddion yn ddamweiniol, niwed i ecosystemau lleol	
	Risg i'r amgylchedd:	Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r amgylchedd:
	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

DEFNYDDIO PAPUR

TEITHIO I GYFARFODYDD - ÔL-TROED CARBON

Bydd y gweithgaredd ymchwil hwn gan amlaf yn defnyddio systemau electronig gan leihau'r angen am bapur a'r angen i deithio.



ADRAN I

ADRAN I: ADBORTH, CYDSYNIAD A CHYFRINACHEDD

CWESTIWN 21

Bydd yr holl ddata'n cael ei gadw ar ddisg galed symudol gyda chyfrinair neu ar gyfrifiadur personol. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cael dynodwr unigryw i sicrhau cyfrinachedd a bydd y rhestr hon yn cael ei chadw'n ddiogel mewn ffolder a warchodir gan gyfrinair. Os bydd angen unrhyw storfa cwmwl, yr unig un a fydd yn cael ei ddefnyddio fydd system Office 365 y Brifysgol a fydd yn cael ei hamgryptio a bydd y data yn y cwmwl yn cael ei wneud yn ddienw.

Bydd y data'n cael eu cadw nes cwblhau'r prosiect ac yna eu dileu. Bydd gan gyfranogwyr yr hawl i ofyn i weld pa ddata sy'n cael eu dal yn ymwneud â nhw a bydd y data hyn yn cael eu dileu ar unwaith os yw'r cyfranogwyr yn gofyn am hyn. Os felly, ni fydd y data'n cael eu defnyddio yn y prosiect.

ADRAN I: ADBORTH, CYDSYNIAD A CHYFRINACHEDD


CWESTIWN 24

Bydd ffurflen caniatâd electronig pob cyfranogwr a data o gyfweiliadau, arsylwi dosbarth a holiadur yn cael eu storio mewn lle diogel megis ar ddisg galed symudol gyda chyfrinair neu ar gyfrifiadur personol neu ar system Office 365 y Brifysgol a fydd yn cael ei amgryptio. Bydd yr holl wybodaeth adnabod personol yn cael ei thynnu i ffwrdd neu ei newid yn ystod y trawsgrifio.

Byddaf yn cadw'r ffurflenni caniatâd gwybodus sydd wedi'u llofnodi ar ffurf papur mewn storfa briodol, megis cabinet ffeiliau dan glo, ac ni fydd ar gael i unrhyw un heblaw'r ymchwilydd. Wrth dderbyn yr adborth a'r radd ar gyfer y darn hwn o waith, bydd y ffurflenni caniatâd gwybodus sydd wedi'u llofnodi yn cael eu dinistrio.

Gellir dinistrio'r cofnodion mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys llosgi ac ati. Ni ellir ailgylchu'r dogfennau yn unig neu eu taflu gan y byddai'r wybodaeth wedyn yn parhau i fod yn weladwy ac ar gael. Dyma'r cam olaf wrth gadw'r ffurflenni caniatâd gwybodus sydd wedi'u llofnodi a bydd yn cael ei wneud i gwblhau'r broses gadw.

Byddaf yn dinistrio ffeiliau sain a/neu fideo hefyd i yswirio cyfrinachedd.



ADRAN I: ADBORTH, CYDSYNIAD A
CHYFRINACHEDD

ADRAN I

ADRAN I: Adborth, Cydsyniad a Chyfrinachedd

Cynhwyswch bob offeryn ymchwil ar wahân yma.

1	Adborth Pa ôl-drafodaeth ac adborth a ddarperir i'r cyfranogwyr, sut y gwneir hyn a phryd?
	Gall cyfranogwyr ofyn am adborth. Sut fyddwch yn delio gyda hyn? (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
2	Cydsyniad gwybodus Disgrifiwch y trefniadau i hysbysu darpar gyfranogwyr, cyn iddynt roi cydsyniad, o'r hyn mae'n ei olygu i gymryd rhan. Disgrifiwch y trefniadau i gyfranogwyr roi cydsyniad llawn cyn i'r gwaith o gasglu data ddechrau. Os yw'n amhriodol cael cydsyniad a sut y cofnodir hynny yn unol â dedd
	e.e. Holiadur papur = cyfranogwyr yn llofnodi ffurflen gydsynio. Holiadur ar-lein = sgrin cyn i'r cwestiynau ddechrau sy'n gweithredu fel ffurflen gydsynio, gan roi gwybod i'r cyfranogwyr eu bod yn darparu caniatâd trwy glicio ar y botwm NESAF. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
3	Cyfrinachedd / Anhysbysrwydd Nodwch sut y sicrheir cyfrinachedd ac anhysbysrwydd y cyfranogwyr mewn unrhyw gynnyrch. Os na chynigir anhysbysrwydd, eglurwch pam.
	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Sut?

Angen trafod y ffordd y bydd hyn yn cael ei sicrhau.



ADRAN J. DIOGELU A STORIO DATA

ADRAN J: Diogelu a Storio Data

h gwblhau'r adran hon cyfeiriwch at Bolisi Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol a'r adnoddau helaeth dudalennau gwe Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol (<http://uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/>).

A yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys data personol (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018)?		YDY	NAC YDY
Mae " data personol " yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â pherson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy (testun data'). Mae person naturiol adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig wrth gyfeirio at ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.		☐	☐
Os YDY, rhowch ddisgrifiad o'r data ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn:			
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)			
3	A yw'n cynnwys data categori arbennig (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)?	YDY	NAC YDY
Mae " Data categori arbennig " yn golygu data personol sensitif sy'n cynnwys gwybodaeth am y testunau data - (a) tras hiliol neu ethnig, (b) safbwyntiau gwleidyddol, (c) credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg, (d) aelodaeth o undeb llafur (yn ôl ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992), (e) iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol, (f) bywyd rhywiol, (g) geneteg, (h) data biometrig (a ddefnyddir i ddibenion adnabod),		☐	☐

Data personol yw data sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r data hwnnw neu o'r data hwnnw a gwybodaeth arall sydd ym meddiant y rheolwr data, neu'n debygol o ddod i feddiant y rheolwr data ac sy'n cynnwys unrhyw fynegiant barn am yr unigolyn ac unrhyw arwydd o fwriadau'r rheolwr data. Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson arall mewn cysylltiad â'r unigolyn (Deddf Diogelu Data / Data Protection Act 1998).

Diffinnir 'Data Personol Sensitif' yn Neddf Diogelu Data 1998 fel data sy'n ymwneud â hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu debyg, aelodaeth undeb llafur, iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol, comisiwn neu gomisiwn honedig o drosedd, achos am drosedd (honnir ei bod wedi'i chyflawni), gwaredu achos o'r fath neu ddedfryd unrhyw lys mewn achos o'r fath.

Os rydych chi'n cynllunio ar gyfer cynnal cyfweiliad, angen i chi ddweud 'ydy' yma.

ADRAN J

Dewiswch y rhai byddech chi am eu defnyddio.

Copïau papur o'r ffurflenni caniatâd???

	A fydd data o'r gweithgarwch ymchwil (data a gasglwyd, drafftiau'r traethawd ymchwil, neu ddeunyddiau i'w cyhoeddi) yn cael eu storio yn unrhyw rai o'r ffyrdd canlynol:
5	Ffeiliau llaw (h.y. ar bapur)?
6	Cyfrifiaduron y brifysgol?
7	Cyfrifiaduron cwmnïau preifat?
8	Cyfrifiaduron cartref neu bersonol eraill?

Angen cynnwys peth gwybodaeth yma (sleid nesa').

12	Yn achos yr holl ddata a storir, eglurwch y mesurau sydd ar waith i sicrhau diogelwch y data a gasglwyd, cyfrinachedd y data, gan gynnwys manylion gweithdrefnau gwneud copi wrth gefn, diogelu â chyfrinair, amgryptio, gwneud yn ddienw a rhoi dan ffugenw:
----	---

Dewiswch y rhai byddech chi am eu defnyddio

	Diogelu Data
	A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys unrhyw rai o'r gweithgareddau canlynol:
13	Trosglwyddo data electronig mewn unrhyw ffurf?
14	Rhannu data ag eraill yn y Brifysgol y tu allan i'r tîm ymchwil uniongyrchol?
15	Rhannu data â sefydliadau eraill?
16	Allforio data y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu fewnforio data o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig?
17	Defnyddio cyfeiriadau, codau post, ffacsys, e-byst neu rifau ffôn personol?
18	Cyhoeddi data a allai ganiatáu adnabod unigolion?
19	Defnyddio system rheoli data?
20	Archifo data?

ADRAN J: CWESTIWN 12:

dynodwr unigryw =
unique identifier

"YN ACHOS YR HOLL DDATA A STORIR.."

Bydd yr holl ddata yn cael ei gadw ar gyfrifiadur personol a ddiogelir gan gyfrinair. Bydd pob cyfranogwr yn cael dynodwr unigryw i sicrhau cyfrinachedd a bydd y rhestr hon yn cael ei chadw'n ddiogel mewn ffolder a ddiogelir gan gyfrinair. Os oes angen storio data mewn unrhyw gwmwl, bydd system Office 365 y Brifysgol yn cael ei ddefnyddio, a fydd yn cael ei hamgryptio a bydd y data yn y cwmwl yn ddienw. Bydd y data'n cael ei storio hyd nes y derbynnir canlyniad yr aseiniad ac yna'n cael ei ddileu. Bydd gan gyfranogwyr yr hawl i ofyn i weld pa ddata sy'n cael ei gadw mewn perthynas â nhw a bydd y data hyn yn cael ei ddileu ar unwaith os bydd y cyfranogwr yn gofyn am hyn ac, os felly, ni fydd y data yn cael ei ddefnyddio yn y prosiect ymchwil.

ADRAN J

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Rhestrwch bawb fydd â hawl i weld y data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil:

Eich enw chi

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Rhestrwch bawb fydd â rheolaeth o'r data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil ac a fydd yn gweithredu fel ceidwad y data:

Eich enw chi

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Rhowch fanylion y trefniadau storio data, yn cynnwys y mesurau diogelwch sydd yn eu lle i ddiogelu'r data, ble caiff y data eu storio, am ba hyd, ac ym mha ffurf. A fydd y data'n cael eu harchifo – os felly, sut ac os na, pam.

Angen trafod y pwyntiau cyntaf (h.y. storio data, diogelwch, ble? am ba hyd?), ond nid oes angen archifo'r data.

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Nodwch a fydd eich data'n cael ei storio yng Nghadwfa Data Ymchwil PCYDDS (gweler

ADRAN J: CWESTIYNAU 21 A 24

Bydd ffurflen caniatâd electronig a data pob cyfranogwr o gyfweiliadau, arsylwadau dosbarth a holiadur yn cael eu storio mewn man diogel mewn cyfrifiadur personol a ddiogelir gan gyfrinair neu system Office 365 y Brifysgol a fydd yn cael ei hamgryptio. Bydd yr holl wybodaeth bersonol adnabyddiaeth bersonol yn cael ei dileu neu gwnaed yn ddienw yn ystod y trawsgrifio.

Bydd ffurflenni caniatâd gwybodus sydd wedi'u llofnodi ar ffurf papur yn cael eu cadw mewn cwpwrdd ffeiliau dan glo ac ni fyddant ar gael i unrhyw un heblaw'r ymchwilydd. Ar ôl derbyn yr adborth a'r marc ar gyfer yr aseiniad hwn, bydd y ffurflenni caniatâd gwybodus sydd wedi'u llofnodi yn cael eu dinistrio a bydd data tâp sain a/neu fideo yn cael ei ddileu.


ADRAN K

ADRAN K: Datganiad

Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i chyflwyno yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf wedi ceisio nodi unrhyw risgiau a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch ymchwil ac rwyf yn cydnabod f'ymrwmiadau innau a hawliau'r cyfranogwyr.

Wrth gyflwyno'r cais hwn cadarnhaf drwy hyn fy mod yn ymrwmo i sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol sydd wedi'i gyhoeddi ar y wefan.: <https://www.uwtsd.ac.uk/research/research-ethics/>

Cofiwch gynnwys y dyddiad



1	Llofnod yr Ymgeisydd:		Dyddiad:
---	------------------------------	--	-----------------

Ar gyfer Cyflwyniadau MYFYRWYR:

2	Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr:		Dyddiad:
3	Llofnod:		

Ar gyfer Cyflwyniadau STAFF:

4	Cyfarwyddwr Academaidd/ Deon Cynorthwyol:		Dyddiad:
5	Llofnod:		

YN OLAF . . .

Rhestr Wirio: Cwblhewch y rhestr wirio isod i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r ffurflen yn unol â'r canllawiau ac wedi atodi unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol:

☐	Rwyf wedi darllen y nodiadau cyfarwyddyd a ddarperir cyn cwblhau'r ffurflen.
☐	Rwyf wedi cwblhau HOLL ADRANNAU PERTHNASOL y ffurflen yn llawn.
☐	Cadarnhaf fod y gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor.
☐	Rwyf wedi atodi copi o'r gymeradwyaeth derfynol/interim gan sefydliad allanol (Ile bo'n briodol).
☐	Rwyf wedi atodi asesiad risg llawn (Ile bo'n briodol) <i>TICIWCH HWN DIM OND OS YDYCH WEDI ATODI ASESIAID RISG LLAWN</i>
☐	Rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol.
☐	Cyn cychwyn casglu data rwy'n deall ei bod yn rhaid i'r holl ddogfennau sydd wedi'u hanelu at ymatebwyr (yn cynnwys taflenni gwybodaeth, ffurflenni cydsynio, holiaduron, rhaglenni cyfweiliadau ac ati) gael eu cadarnhau gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau/Goruchwyliwr, y tiwtor modwl neu'r Cyfarwyddwr Academiaidd.

POB LWC!

Unrhyw gwestiynau?